# Adroddiad Grŵp Prosiect BGC

Paratowyd gan: Linda James a Sara Dafydd

| | |
|---|---|
| **Nod y Cynllun Llesiant** | Bydd pob prosiect peilot sy'n seiliedig ar leoedd yn anelu at fynd i'r afael â'r 6 nod llesiant fel yr amlinellir yng Nghynllun Llesiant Lleol 2018-23. Bydd fframwaith cyflawni yn seiliedig ar leoedd yn blaenoriaethu integreiddio ac yn cynnwys dull cyfannol a dwfn o ymdrin â chydnerthedd cymunedau ac unigolion. |
| **Ein Gwerthoedd** | Y Gymraeg, Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau, Cynnwys, Cynaliadwyedd, Arwain trwy Esiampl |
| **Enw'r Grŵp Prosiect** | Aberystwyth Carbon Niwtral a Strategaeth Datgarboneiddio |
| **Cadeirydd** | **Rachel Jarvis**, Cyfoeth Naturiol Cymru |

| **Aelodaeth y Grŵp Prosiect** *(Yr enwau mewn **print trwm** oedd yn bresennol yn y cyfarfod)* | | | |
|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ceredigion | Naomi McDonagh, **Sara Dafydd**, Lynne Walters, Lyndon Griffiths, **Bethan Lloyd Davies**, **y Cynghorydd Alun Williams**, Rhodri Llwyd, **Dr Sarah Groves-Phillips, y Cynghorydd Keith Henson**, Beti Gordon, Emily Edwards, **Teleri Elias, Bethan Howell**. | Prifysgol Aberystwyth | Rhodri Llwyd Morgan |
| | | Cyfoeth Naturiol Cymru | Yvette Eley, Thomas Vetter, Peter Frost |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Paul Williams, Terri Shaw, Owen Harris | Llyfrgell Genedlaethol Cymru | Mark Stevens |
| Gwasanaethau Ynni Llywodraeth Cymru | Rhys Horan, Huw Lewis, Brian Drysdale | Cynllun Ynni Canolbarth Cymru | Thomas Yeo |
| | | Coleg Sir Gar / Ceredigion | **Vanessa Cashmore**, Louis Dare |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru | Neil Evans | CMGC | Chesca Ross |
| EcoDyfi | Andy Rowland | Cyd-gynhyrchu Cymru | Roxanne Treacy, Vikki Butler |
| Cyngor ar Bopeth (CAB) | **Juliet Morris** | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | **Kelly Williams, Daniel Priddy** |

**CRYNODEB O GYFARFOD Y GRŴP PROSIECT**

**Pwyntiau Allweddol a drafodwyd yng nghyfarfod y Grŵp Prosiect: 27.04.23**

**<u>10.1 Croeso, Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau</u>**
Croesawodd y Cadeirydd (RJ) yr aelodau i'r cyfarfod a gwnaed cyflwyniadau. Nodwyd yr ymddiheuriadau am y canlynol: *Caitlin Theodorou, Chesca Ross, Dewi Day, Emily Edwards, Gareth Lewis, Huw Lewis, Kate Williams, Paul Williams, Roxanne Treacy, Rhodri Llwyd, Rhys Horan, Sharon Hughes, Terri Shaw, Thomas Yeo ac Yvette Eley.*
**Cam gweithredu: Sara Dafydd (SD) i drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu ar gyfer cyfarfodydd yr is-grŵp hwn yn y dyfodol yn unol â chais y Cynghorydd Keith Henson.**

**<u>10.2 Cofnodion a materion sy'n codi o'r cyfarfod blaenorol</u>**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 12 Ionawr 2023 fel cofnod gwir a chywir.

**<u>10.3 Eitem Sefydlog: Cynllun Llesiant Lleol 2023-2028</u>**
Cymeradwywyd Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion ar gyfer 2023-28 gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion (BGC) ar 24 Ebrill 2023. Dywedodd SD fod dyletswydd statudol i'r Cynllun gael ei gyhoeddi o fewn blwyddyn i'r etholiad blaenorol, a chadarnhawyd y bydd y Cynllun yn cael ei gyhoeddi ar wefan y BGC ddydd Mawrth 02 Mai.

**<u>10.4 Gweithredu'r Cynllun Llesiant</u>**
Dywedodd SD fod Fframwaith Llywodraethu a Chyflawni sy'n amlinellu sut y bydd y Cynllun yn cael ei gyflawni wrthi'n cael ei ddrafftio, a bydd yn cael ei rannu gyda'r BGC yn fuan. Bydd ffocws gwaith yr is-grŵp hwn ar gamau gweithredu a amlinellir o dan *Amcan 3 Llesiant Amgylcheddol: Cydweithio i gyflwyno mentrau datgarboneiddio yng Ngheredigion i ddiogelu a gwella ein hadnoddau naturiol.* Mae 7 cam gweithredu yn gysylltiedig â'r Amcan hwn, y gellir eu gweld ar dudalen 21 y Cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys cynnal Asesiad o Risgiau a Chyfleoedd y Newid yn yr Hinsawdd a helpu i ddatblygu cymunedau sy'n ymaddasu ac yn gydnerth

DRAFT

mewn ymateb i'r newid yn yr hinsawdd, gan annog arloesi a datblygu atebion sy'n seiliedig ar natur. Dywedodd y Cadeirydd fod yr angen i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gynnal Asesiad o Risgiau a Chyfleoedd y Newid yn yr Hinsawdd wedi'i fwydo'n ôl ledled Cymru fel rhan o ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i'r ymgynghoriad. Rhannodd y Cadeirydd yn fyr y Dystiolaeth ar gyfer trydedd ddogfen Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd y DU: Crynodeb i Gymru sy'n crynhoi risgiau a chyfleoedd yn sgil y newid yn yr hinsawdd i Gymru, gan gynnwys i fusnes, seilwaith, tai, yr amgylchedd naturiol, ein hiechyd a risgiau o effeithiau newid hinsawdd yn rhyngwladol. Cadarnhawyd y byddai angen cymorth arbenigol gan Gyfoeth Naturiol Cymru i gynnal Asesiad ar gyfer Ceredigion.
**Cam gweithredu: RJ i gynnal sgyrsiau cychwynnol gyda chydweithwyr Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch proses yr Asesiad.**
**Cam gweithredu: SD i'w gynnwys fel eitem Agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.**

Mewn perthynas â chamau gweithredu eraill a amlinellwyd o dan Amcan 3, nododd y Cadeirydd fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn awyddus i sicrhau bod agweddau amgylcheddol eraill megis dŵr ac ansawdd aer yn cael eu cynnwys yn y Cynllun, yn ogystal â datgarboneiddio. Nododd y Cynghorydd Keith Henson (KH) fod eitem 3.6 yn ymwneud â'r Siarter Teithio Llesol yn cael ei thrafod fel rhan o fforymau eraill. Dywedodd SD fod cyflwyniad ar drafnidiaeth gyhoeddus yn y sir a sgyrsiau cychwynnol am y Siarter Teithio Llesol wedi eu trefnu ar gyfer cyfarfodydd BGC sydd i ddod.

Cytunwyd mai'r camau nesaf fyddai llunio Cynllun Gweithredu, gyda chamau gweithredu go iawn y gall yr is-grŵp ganolbwyntio arnynt ar gyfer y flwyddyn i ddod a fydd yn cyflawni'r meysydd a gwmpesir o dan Amcan 3 yn y Cynllun. Cytunwyd y dylid cynnwys nodi blaenoriaethau'r is-grwp ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.
**Cam gweithredu: SD i gylchredeg Cynllun Llesiant Lleol newydd Ceredigion ar gyfer 2023-28, a'r aelodau i ystyried pa gamau gweithredu o dan Amcan 3 y dylai'r is-grŵp ganolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn i ddod.**

**<u>10.5 Mapio mentrau cyfredol a nodi bylchau</u>**
Nododd y Cadeirydd fod llawer iawn o waith da eisoes yn mynd rhagddo gan wahanol sefydliadau. Cytunwyd bod angen ymarfer mapio i gofnodi'r mentrau hyn er mwyn nodi unrhyw fylchau ac osgoi dyblygu.
**Cam gweithredu: RJ i greu taenlen a'i dosbarthu i'r grŵp i'w llenwi â phrosiectau a mentrau sydd eisoes yn cael eu cyflawni.**
**Cam gweithredu: SD i'w ychwanegu fel eitem agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.**

**<u>10.6 Adolygu aelodaeth yr is-grŵp a chysylltiadau â grwpiau perthnasol eraill</u>**
Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau ystyried a oes unrhyw unigolion, grwpiau neu sefydliadau a fyddai'n elwa o fynychu cyfarfod yr is-grŵp hwn yn y dyfodol. Gallai hyn olygu ymuno fel aelod o is-grŵp, neu fynychu cyfarfodydd unigol i roi cyflwyniad ar ddarnau penodol o waith neu brosiectau. Roedd rhai syniadau yn cynnwys estyn gwahoddiadau i gynrychiolwyr o Sustrans, a Dŵr Cymru

Welsh Water (DCWW). Cadarnhaodd SD y bydd angen adolygu a diwygio Cylch Gorchwyl y BGC a'i is-grwpiau yn dilyn cyflwyno'r Cynllun newydd.

**<u>10.7 Diweddariadau gan bartneriaid</u>**

Roedd Dewi Day (DD) a anfonodd ei ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod hwn wedi cyflwyno diweddariad ar y Rhwydwaith Gwresogi Ardal. Yn dilyn canlyniad yr astudiaeth ddichonoldeb techno-economaidd, nodwyd bod yr holl bartïon sy'n ymwneud â'r cynllun yn parhau i gefnogi datblygiad y prosiect datgarboneiddio gwres. Maent yn aros am fanylion gan BEIS yn ymwneud â chyllid grant 'Datblygu Achos Busnes Manwl'. Oherwydd y costau dichonoldeb sylweddol sy'n gysylltiedig â'r prosiect hwn, maent yn ddibynnol iawn ar argaeledd y cynllun grant hwn a bydd cais yn cael ei gyflwyno yn ystod y ffenestr grant nesaf.

Dywedodd Kelly Williams (KW) fod Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ar hyn o bryd yn gweithio ar ennill statws baner werdd ar gyfer tiroedd y campws yn Llanbedr Pont Steffan; mae teils to gyda solar wedi'u mewnosod ynddynt yn cael eu defnyddio i ail-doi tri adeilad ac mae gwefru cerbydau trydan yn ei le ac mae mwyafrif y fflyd bellach yn drydanol. Bydd cais llwyddiannus am gyllid Gwres Carbon Isel Llywodraeth Cymru yn caniatáu i bympiau gwres ffynhonnell aer gael eu gosod mewn tri adeilad. Mae'r Brifysgol a Choleg Sir Gâr yn gweithio ar Strategaeth Cynaliadwyedd Grŵp cyfun.

Rhoddodd Vanessa Cashmore (VC) ddiweddariad ar gyfer Coleg Ceredigion. Mae pwyntiau gwefru cerbydau trydan wedi'u gosod at ddefnydd staff a myfyrwyr. Mae'r boeler ar Gampws Aberystwyth wedi methu, ac maen nhw'n edrych ar hyn o bryd i gael dewis carbon isel yn ei le.

Rhoddodd Sarah Groves-Phillips (SG-P) ddiweddariad ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion (Cynllunio). Mae'r Bwrdd Rheoli Maethynnau wedi cynhyrchu sawl dogfen sy'n seiliedig ar dystiolaeth a fydd yn ddefnyddiol i'r grŵp megis yr Astudiaeth Dichonoldeb Gwlyptir o ddalgylch y Teifi a thystiolaeth gefndir yn ymwneud â masnachu maethynnau yn y rhanbarth (gan gynnwys Cleddau a Thywi). Dylai'r gyfrifiannell Ffosffadau a Nitradau fod ar gael yr wythnos nesaf yn ogystal â phecyn cymorth i ddatblygwyr gyda gwybodaeth am yr asesiad o reoliadau cynefinoedd a chanllawiau lliniaru. Cynhelir diwrnod rhanddeiliaid rhanbarthol ar 31 Mai, 10am tan 4pm yng Nghanolfan Halliwell, Caerfyrddin. Mae cais Cronfa Ffyniant Gyffredin wedi'i gyflwyno ar gyfer pob un o'r tri dalgylch ar gyfer gorsafoedd monitro ansawdd dŵr yn ogystal â Swyddogion Rheoli Maethynnau ar gyfer pob ardal. Nododd RJ fod ffosffadau yn broblem fawr i'r sir ac y dylai fod yn ystyriaeth i'r grŵp yn y dyfodol. Gofynnodd RJ a oedd unrhyw gyfle i weithio gyda'r Bwrdd Rheoli Maethynnau. Mynegwyd pryderon ynghylch rhyddhau data maethynnau morol sydd ar ddod, a allai weld cynnydd yn y ganran o Geredigion sy'n dod o dan embargo cynllunio. Nododd KH ei fod wedi cadeirio cyfarfod diweddar o Rwydwaith Bioamrywiaeth Ceredigion lle cafwyd cyflwyniad gan DCWW, a chynigiwyd bod cynrychiolydd o DCWW yn cael ei wahodd i fynychu cyfarfodydd yr is-grŵp wrth symud ymlaen i sicrhau cydweithio ar y mater hwn.

**Cam gweithredu: Bydd y data a ryddhawyd ar faethynnau morol yn cael ei ddiweddaru yn y cyfarfod nesaf.**
**Cam gweithredu: Gwahodd cynrychiolydd o DCWW i fynychu cyfarfodydd yr is-grŵp.**

Mae sesiwn adborth Creu Lleoedd (sy'n cynnwys Seilwaith Gwyrdd, Adfywio, Cynlluniau Bro Trefi, Gostegu Traffig a Strategaethau Parcio) yn cael ei chynnal gyda chwe thref y sir ym mis Mai. Nid yw'r rhain yn ddigwyddiadau cyhoeddus; Gwahoddwyd Cynghorau Tref, Ymgynghorwyr a rhanddeiliaid amrywiol i drafod yn fanylach y cynlluniau adfywio, brandio a marchnata'r dref. Bydd cais llwyddiannus i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn ariannu arfarniadau ardal gadwraeth a chynlluniau rheoli ar gyfer pob un o'r chwe thref, gan edrych ar ffiniau trefi, coed a sut i annog a chefnogi gwyrddu ein trefi. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn parhau i fod wedi'i oedi, ond mae monitro'n parhau - nid oes gwaith yn cael ei wneud ar CDLl newydd ar hyn o bryd. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda Chyngor Sir Powys a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar Gynllun Datblygu Strategol fel sy'n ofynnol o dan Bolisi Cymru'r Dyfodol. Gofynnwyd am adnoddau ychwanegol i swyddog fapio'r Cynllun Datblygu Strategol ar draws y rhanbarthau. Bydd gan y Cynllun Datblygu Strategol ffocws cryf ar fioamrywiaeth, newid hinsawdd, datgarboneiddio a theithio cynaliadwy.

Rhoddodd Bethan Lloyd Davies (BLD) ddiweddariad ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion (Rheoli Carbon). Mae gan y Cyngor Gynllun Gweithredu Sero Net sy'n cael ei adolygu o bryd i'w gilydd ac ar hyn o bryd dim ond adrodd ar allyriadau gweithredu. Mae Cam 2 y prosiect Gwefru Cerbydau Trydan wedi'i gwblhau ac ar hyn o bryd yn ceisio cyllid ar gyfer Cam 3. Mae cyflenwadau trydan wedi'u gosod ym mhob un o brif ddepos y Cyngor i gefnogi datgarboneiddio'r fflyd yn y dyfodol. Mae llawer iawn o waith yn mynd rhagddo yn rhanbarthol megis y Strategaeth Ynni Rhanbarthol a'r Cynllun Gweithredu, mae gwaith yn dechrau ar y Cynlluniau Ynni Lleol unigol ar gyfer Ceredigion a Phowys. Mae'r rhaglen Ail-osod yn cael ei hystyried eto yn ogystal â'r Adolygiad Asedau Tir sy'n cynnig cyfleoedd i ynni adnewyddadwy ar raddfa fwy ddefnyddio'r ynni mewn adeiladau. Ychwanegodd KH mai un o'r prif faterion yw sut i ddefnyddio'r ynni yr ydym yn ei gynhyrchu. Mae'r Grid Cenedlaethol wedi cael Adolygiad Cod sylweddol yn ddiweddar, sydd eto i gael unrhyw effaith yn lleol.

Rhoddodd Bethan Howell (BH) ddiweddariad ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion (Tai). Yn ystod Ionawr – Mawrth 2023 roedd cynllun ECO Flex 4 wedi cael 136 o geisiadau ac wedi cyhoeddi 130 o ddatganiadau i gartrefi cymwys i wneud gwelliannau effeithlon o ran ynni. Mae'r prosiect Cartrefi Cynnes mewn partneriaeth â'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth (CAB) wedi cynorthwyo 73 o aelwydydd tlodi tanwydd yn ystod y tri mis diwethaf i gael gafael ar gyllid, gan wneud y mwyaf o incwm a chyngor effeithlonrwydd ynni a oedd yn cyfateb i £64,874.00. Ers i'r prosiect ddechrau ym mis Ebrill 2022, mae wedi cynorthwyo 275 o aelwydydd.

Dywedodd y Cadeirydd fod sector Coedwigaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn edrych ar y posibilrwydd o sefydlu menter tanwydd coed cymunedol yn y Canolbarth, gyda'r farn y byddai unrhyw bren dros ben ar ôl torri coed yn cael ei gynnig i grwpiau cymunedol am ffi isel.

DRAFT

**Cam gweithredu: RJ i ofyn am ddiweddariad ar y fenter tanwydd coed cymunedol bosibl gan gydweithwyr Cyfoeth Naturiol Cymru.**

**10.8 Oes angen i ni drafod â Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru ar unrhyw un o'r materion a godwyd?**

Mae Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru yn gweithio gyda 3 chlwstwr o BGCau ledled Cymru i gefnogi datblygiad eu harfer o ymgysylltu a chynnwys ystyrlon, gan symud tuag at gyd-gynhyrchu llawn. Mae Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru wedi bod yn adnodd gwerthfawr wrth gefnogi datblygiad Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion ar gyfer 2023-28, a bydd ar gael i gynorthwyo gyda gweithredu a chyflawni elfennau o'r Cynllun am y 3 blynedd nesaf. Yn dilyn cyhoeddi'r Cynllun, ac unwaith y bydd Cynllun Gweithredu wedi'i roi ar waith ar gyfer yr is-grŵp, byddai'n fuddiol ystyried a all Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru gefnogi unrhyw feysydd gwaith a drafodir mewn cyfarfodydd o safbwynt cyd-gynhyrchu a chynnwys.

**10.9 Unrhyw fater arall a gynigir gan aelodau'r Grŵp Llywio**

Trafododd y grŵp y posibilrwydd o gyfarfod wyneb yn wyneb unwaith y flwyddyn – Er bod polisi Cyngor Sir Ceredigion yn amlinellu y dylid cynnal cyfarfodydd yn rhithwir lle bo'n bosibl, awgrymwyd y gallai cyfarfod wyneb yn wyneb fod yn fuddiol at ddibenion gweithdy i ystyried blaenoriaethau'r is-grŵp neu gael cyflwyniadau gan westeion. Nododd SD gam gweithredu blaenorol i Lyfrgell Genedlaethol Cymru roi cyflwyniad i'r grŵp ar y llu o fesurau arloesol ar eu safle.
**Cam gweithredu: Cyfarfod personol i'w ystyried ar ôl cyfarfod mis Gorffennaf.**

Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu hamser a'u cyfraniadau, a daeth y cyfarfod i ben.

**Cyfarfod Nesaf** 18 Gorffennaf 2023, am 10:00-12:00.

DRAFT